MAE'R CELTIAID YN CYD-WEITHIO I DDOD O HYD I FFORMAT HAMDDEN GWREIDDIOL CYFFROUS NEWYDD

Mae BBC ALBA, S4C a TG4 yn cyd-weithio i ddarganfod fformat ffres, arbennig y gall y Gwledydd Celtaidd fod yn falch ohono ac a fydd yn diddanu gwylwyr ar draws y tair cenedl.

Rydym yn gwahodd syniadau gwreiddiol ar gyfer **fformat hamdden** a ddylai fod yn uchelgeisiol ac adloniannol, gydag apêl eang ar gyfer ein cynulleidfaoedd ar draws y gwledydd Celtaidd a thu hwnt. Hoffem i'ch cynigion fod yn ddewr a beiddgar, gyda fformatau a fydd yn apelio at gynulleidfa oriau brig. Dylai'r syniadau fod yn deimladwy mewn rhyw ffordd, gan wneud i rywun unai chwerthin, grïo neu gael ei synnu.

Bydd MG ALBA (ar ran BBC ALBA), TG4 & S4C yn ariannu peilot yn gyfartal, i gyfanswm o £15,000 gyda'r nod o ddatblygu fformat a fydd â'r potensial i greu cyfres sy'n dychwelyd sy'n addas ar gyfer y rhanbarthau Celtaidd i gyd a thu hwnt.

Dylai cynigion gynnwys:

Crynodeb, triniaeth ar gyfer y fformat, awgrym o'r talentau arfaethedig ac o sut y caiff yr arian datblygu ei ddefnyddio i gynhyrchu peilot gwerth chweil a ellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cyfres sy'n dychwelyd.

Caiff y syniadau gorau eu gosod ar restr fer a'u gwahodd i wneud cyflwyniad o flaen y tri darlledwr cyn Rhagfyr 2015. Dewisir un syniad i dderbyn y £15,000 o arian datblygu i greu peilot i'w gyfleu yn gynnar yn 2016.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: canol dydd, dydd Gwener 30ain Hydref 2015.

Anfonwch eich ceisiadau at: Celticformats@s4c.cymru

Trwy gyflwyno eich syniadau i'r cyfeiriad e-bost uchod, rydych yn cytuno i'r Telerau Ymgeisio a osodir isod.

TELERAU YMGEISIO I'R FENTER FFORMAT CELTAIDD

Cefnogir Menter Fformat Celtaidd ("CFI") 2015 gan:

- S4C, sydd â'i swyddfa gofrestredig ym Mharc Tŷ Glas, Llanisien, CF14 5DU, Cymru ("S4C")
- TG4 o Baile na hAbhann, Co. Galway, Iwerddon ("TG4"); a
- MG ALBA o Seaforth Road, Stornoway HS1 2SD, Yr Alban ("MG ALBA")

(Cyfeirir at S4C, TG4 ac MG ALBA gyda'i gilydd fel "Y Darlledwyr")

1. Gofynion ymgeisio

Er mwyn cymryd rhan yn y fenter hon, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r canlynol trwy neges e-bost at **Celticformats@s4c.cymru** cyn **canol dydd ar 30ain Hydref 2015**:

- Crynodeb a thriniaeth ar gyfer y fformat (gall hyn fod ar ffurf dogfen neu dâp arddangos gweledol). Dylai'r driniaeth fod yn syml, yn fyr a dylai amlinellu elfennau allweddol y fformat a'ch gweledigaeth ar gyfer y fformat mewn 2 i 5 tudalen.
- Dylid nodi awgrym o'r talentau arfaethedig a/neu rinweddau allweddol unrhyw dalentau.
- Manylion ynghylch sut byddai'r £15,000 o arian datblygu'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu rhaglen beilot y gellir ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer cyfres ddychweladwy.
- Dylid cynnwys manylion cyswllt llawn yr ymgeisydd (enw cyswllt, enw'r cwmni (lle y bo'n berthnasol), cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post a rhif ffôn cyswllt).

Gellir cyflwyno gwybodaeth yn eich iaith Geltaidd leol neu yn Saesneg. Lle y cyflwynir gwybodaeth mewn unrhyw iaith heblaw'r Saesneg, dylid cyflwyno cyfieithiad Saesneg hefyd.

Nid yw'r Darlledwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffygion unrhyw system ddosbarthu neu am unrhyw ymatebion coll, sy'n destun oedi neu sy'n ddiffygiol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich ymatebion (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan gyfrif am y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y bydd methiannau technegol) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion fel a nodir uchod.

Sylwer nad yw'r cyfeiriad e-bost yn gallu derbyn negeseuon e-bost sy'n fwy nag 20Mb a'r fformatau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r fformatau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau *Zip.* Dylech fod yn ymwybodol y gallai eich ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd) osod cyfyngiadau is ar faint negeseuon e-bost ac, felly, fe'ch cynghorir i gadarnhau'r cyfyngiadau a maint gyda'ch ISP neu eich adran TG eich hun ymhell cyn y dyddiad anfon a'r dyddiad cau.

2. Syniad y Fformat

Rhaid i'r fformat fod yn hollol wreiddiol, heb ei seilio ar unrhyw raglen, fformat, llyfrau, dramâu na deunyddiau ffynhonnell arall, ac ni ddylid bod wedi cyflwyno'r fformat i

unrhyw ddarlledwr yn flaenorol, ac ni ddylai fod o dan opsiwn, yn cael ei ddatblygu nac yn cael ei gynhyrchu ar gyfer unrhyw ddarlledwr arall.

Rhaid i'r fformat allu cael ei gynhyrchu yn unol â Chodau BAI a Chod Darlledu Ofcom ac ni ddylai dorri ar na thresmasu ar hawliau unrhyw berson arall, gan gynnwys unrhyw hawliau preifatrwydd, hawliau eiddo deallusol neu hawliau dynol.

Trwy gyflwyno syniad y fformat, mae pob ymgeisydd yn gwarantu bod syniad y fformat yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y rhan hon, sef rhan 2.

3. Rhagor o Wybodaeth

Dylid anfon pob ymholiad arall ynghylch y fenter hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am ragor o wybodaeth a/neu arweiniad, drwy neges e-bost at Celticformatquestions@s4c.cymru

Er tegwch a thryloywder, sylwch y bydd pob cais am ragor o wybodaeth a/neu arweiniad yn gysylltiedig â'r fenter hon ac ymatebion i geisiadau o'r fath yn cael eu datgelu i bob ymgeisydd. Gwneir pob datgeliad o'r fath trwy neges e-bost i'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir gan yr ymholwr penodol ac fe'u cyhoeddir ar wefannau'r Darlledwyr.

4. Dewis y Prosiect Datblygu

Bydd cynrychiolwyr o'r Darlledwyr yn agor pob cynnig a gyflwynir yn unol â'r Telerau Ymgeisio hyn ar yr un pryd ar neu ar ôl y Dyddiad Cau. Bydd cynrychiolwyr pob Darlledwr yn gwerthuso pob cynnig yn unol â'r meini prawf canlynol:

- Gwreiddioldeb ac elfennau allweddol y fformat
- Yr apêl i gynulleidfa graidd y Darlledwyr a'r potensial am apêl ehangach
- Y defnydd arfaethedig o'r £15,000 o arian datblygu

Yn dilyn y gwerthuso, bydd y Darlledwyr yn llunio rhestr fer o hyd at uchafswm o chwe (6) chwmni i'w gwahodd i gyflwyno eu syniadau gerbron y Darlledwyr. Bydd y Darlledwyr yn hysbysu'r cwmnïau sydd wedi cael eu gwahodd i gyflwyno eu syniadau trwy neges e-bost ar neu oddeutu 13 Tachwedd 2015. Hysbysir yr ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl y dyddiad hwn.

Os bydd Datblygwr y Fformat yn unigolyn neu os bydd profiad y datblygwr o gynhyrchu rhaglenni teledu o'r natur arfaethedig yn brin, bydd rhan o'r cyflwyniad yn cynnwys trafodaeth gyda'r Darlledwyr ynghylch sut mae Datblygwr y Fformat yn bwriadu cynhyrchu'r peilot ac a yw wedi cysylltu â phartner cynhyrchu neu a fyddai'n barod i'r darlledwr sy'n comisiynu enwebu cwmni cynhyrchu neu gynhyrchydd gweithredol i weithio ar y prosiect.

Gwneir pob cyflwyniad trwy Fideo-gynadledda neu Skype. Bydd cynrychiolydd o bob Darlledwr yn bresennol a gwneir trefniadau addas ar gyfer cyswllt Fideo-gynadledda neu Skype gyda phob ymgeisydd sy'n cael gwahoddiad i gyflwyno.

Ar ôl gwerthuso syniadau'r fformat ymhellach, bydd y Darlledwyr, lle y bo'n briodol, ar y cyd ac yn unfrydol yn dewis un (1) syniad fformat i'w ddatblygu ymhellach.

Bydd y Darlledwyr yn hysbysu'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus drwy neges e-bost ar ôl i bob cyflwyniad gael eu gwneud.

Gwneir penderfyniadau'r Darlledwyr yn gysylltiedig â hyn yn ôl eu disgresiwn llwyr a byddant yn derfynol.

5. Telerau Datblygu Allweddol

Lle y cyflwynir syniad am fformat fel rhan o'r fenter hon, ond ni chaiff ei ddewis i'w ddatblygu, bydd y cwmni cynhyrchu sy'n cyflwyno'r syniad yn cadw pob hawl i'r cyfryw fformat.

Lle y dewisir syniad fformat i'w ddatblygu, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd a gyflwynodd syniad y fformat ("Datblygwr y Fformat") ymrwymo i gytundeb datblygu gyda'r Darlledwyr a fydd yn cynnwys y telerau canlynol:

- ymrwymiad ar ran Datblygwr y Fformat i gyflwyno'r deunyddiau datblygu, gan gynnwys rhaglen beilot o ansawdd heb fod yn ansawdd darlledu yn seiliedig ar syniad y fformat (gydag is-deitlau Saesneg, lle y bo'n briodol), llawlyfr fformat sylfaenol, trefn y rhaglen;
- ymrwymiad gan bob un o'r Darlledwyr i gyfrannu £5,000 yr un (cyfanswm o £15,000);
- yr hawl ecsgliwsif i bob un o'r Darlledwyr gomisiynu un gyfres neu fwy yn eu hiaith leol yn seiliedig ar y fformat yn ôl eu disgresiwn llwyr, i'w darlledu'n fyd-eang heb gyfyngiad;
- os bydd profiad Datblygwr y Fformat o gynhyrchu rhaglen yn iaith un o'r darlledwyr comisiynu yn gyfyngedig, gallai pob darlledwr comisiynu ei gwneud hi'n ofynnol i Ddatblygwr y Fformat roi'r fformat ar drwydded i gynhyrchydd annibynnol lleol yn gyfnewid am ffi ar gyfer y fformat. Caiff Datblygwr y Fformat rôl ymgynghorol gyda'r cwmni cynhyrchu perthnasol ar delerau y cytunir arnynt gyda'r darlledwr comisiynu;
- caiff hawlfraint y fformat sylfaenol a'r rhaglen beilot eu haseinio i'r Darlledwyr ac i Ddatblygwr y Fformat, i'w dal gan bob parti mewn cyfrannau cyfartal;
- bydd pob parti yn cytuno ar y strategaeth ddosbarthu fwyaf priodol ar gyfer y fformat fel rhan o gytundeb comisiynu;
- caiff hawlfraint yn unrhyw raglen a gomisiynir gan ddarlledwr ei aseinio yn ôl, ac fe fydd yn berchen i, y Darlledwyr a Datblygwr y Fformat mewn cyfrannau cyfartal; ac
- os dewisir syniad y fformat ar gyfer gwaith datblygu ond nid oes yr un o'r Darlledwyr yn dewis comisiynu cyfres yn seiliedig ar y fformat o fewn 24 mis o gyfleu'r deunyddiau datblygu, ystyrir bod y prosiect mewn sefyllfa o 'droad' a bydd hawl gan Ddatblygwr y Fformat i brynu'r holl hawliau i'r fformat yn ôl trwy ad-dalu'r £15,000 o arian datblygu.

6. Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

Mae'r Darlledwyr yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ("FOI") 2000 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth Iwerddon 2014 a gallai fod angen iddynt ddatgelu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw ddogfen a ddarperir gan bob ymgeisydd, mewn ymateb i gais o dan y FOI.

Trwy ymateb i'r ddogfen hon, mae pob ymgeisydd yn cytuno y gall pob Darlledwr brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarperir yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a

chadarnhânt fod yr ymgeisydd wedi derbyn caniatâd gofynnol pob trydydd parti er mwyn galluogi'r Darlledwyr i wneud hynny.

7. Cyfrinachedd

Mae pob ymgeisydd yn cytuno i gadw unrhyw wybodaeth y mae'r Darlledwyr yn ei datgelu iddynt neu yn ei darparu iddynt fel arall mewn perthynas â'r fenter hon yn gyfrinachol, cytuna'r ymgeiswyr i beidio â defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben heblaw paratoi ymatebion ac ni fyddant yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i unrhyw berson ac eithrio mewn amgylchiadau o gyfrinachedd ac i'r bobl hynny sy'n uniongyrchol gysylltiedig â pharatoi'r ymateb os oes angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn unig. Ni fydd ymrwymiadau cyfrinachedd fel hyn yn berthnasol i ddogfennau sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y bydd unrhyw un o'r Darlledwyr yn datgelu neu'n darparu'r wybodaeth.

Mae ymgeiswyr yn cytuno i beidio, ac yn cytuno i sicrhau nad yw eu gweithwyr nac unrhyw ymgynghorydd nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r ymateb, yn cyhoeddi unrhyw gyhoeddusrwydd o unrhyw fath (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hysbysiadau trwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook neu Twitter neu arall) ynghylch y fenter nac unrhyw benderfyniad gan y Darlledwyr yn gysylltiedig ag unrhyw elfen o'r fenter hon, oni bai bod pob un o'r Darlledwyr wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gyfathrebu o'r fath.

8. Dim Cyd-Gynllunio

Trwy gyflwyno ymateb, mae ymgeiswyr yn tystio:

1. bod yr ymateb yn ddilys ac y bwriedir iddo fod yn gystadleuol; ac

2. nad yw'r ymgeisydd wedi gosod nac addasu'r ymateb trwy nac o dan nac yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall nac wedi'i gwneud hi'n ofynnol i unrhyw gynhyrchydd arall wneud yr un peth.

9. Hawliau yn y deunydd a gyflwynir ac indemniad

Rhaid i bob ymgeisydd sicrhau ei fod yn rheoli pob hawl, teitl a budd yn ac i'r deunydd a gyflwynir, y mae eu hangen er mwyn i'r Darlledwyr gaffael yr hawl dilyffethair i fod yn berchen ar ac ymelwa ar y fformat ac unrhyw raglenni sy'n seiliedig ar y fformat, trwy werthu neu drwyddedu, ym mhob cyfrwng yn fyd-eang, am byth.

Mae ymgeiswyr yn cydnabod bod y Darlledwyr yn datblygu ac yn derbyn syniadau gan amrywiaeth o wahanol ffynonellau yn gyson. O ganlyniad, ni fydd y Darlledwyr yn atebol i unrhyw ymgeisydd am unrhyw ddefnydd ar ddeunydd nad yw'n wreiddiol i'r ymgeisydd, nad yw'n newydd neu y cafodd ei gyflwyno yn annibynnol i'r Darlledwyr neu y cafodd ei ddatblygu yn flaenorol gan unrhyw un o weithwyr y Darlledwyr, neu y caiff ei gyflwyno gan drydydd parti i'r Darlledwyr yn y dyfodol ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth o unrhyw fath ar y Darlledwyr i ddigolledu'r ymgeisydd am ddefnyddio unrhyw ddeunydd o'r fath.

Os bydd unrhyw rai o'r Darlledwyr yn cynhyrchu neu'n dosbarthu rhaglen neu raglenni teledu yn seiliedig ar yr un syniad, thema neu sefyllfa gyffredinol a/neu sydd â'r un lleoliad neu hanes cefndir ag unrhyw ddeunydd a gyflwynir gan yr ymgeisydd, ni fydd gan y Darlledwyr unrhyw rwymedigaeth nac atebolrwydd o unrhyw fath i'r ymgeisydd o safbwynt cynhyrchu neu ddosbarthu'r cyfryw raglen/raglenni, heblaw lle y mae'r Darlledwyr wedi copïo mynegiant a datblygiad y cyfryw syniad, thema neu sefyllfa, gan

gynnwys cymeriadau a stori'r rheiny, yn sylweddol. Nid ystyrir bod cyflwyno deunydd gan yr ymgeisydd yn gosod unrhyw un o'r Darlledwyr mewn sefyllfa sy'n wahanol i unrhyw aelod arall o'r cyhoedd o ran y deunydd a gyflwynir. Yn hynny o beth, gall unrhyw ran o'r deunydd y gellid ei defnyddio'n rhydd gan unrhyw aelod o'r cyhoedd gael ei defnyddio gan y Darlledwyr heb atebolrwydd i'r ymgeisydd.

Trwy gyflwyno cynnig, mae ymgeiswyr yn cytuno i indemnio ar alw, amddiffyn, rhyddhau, gollwng a rhyddarbed y Darlledwyr rhag unrhyw a phob hawl ac atebolrwydd sy'n deillio o neu sy'n gysylltiedig â chyfranogiad yr ymgeisydd yn y fenter hon, gan gynnwys, heb gyfyngiad: (a) hawliadau am anaf, colled neu niwed o unrhyw fath yn deillio o gyfranogiad yr ymgeisydd yn y fenter hon; a (b) hawliadau yn seiliedig ar hawliau preifatrwydd, hawliau moesol, difenwi, tor-hawlfraint a/neu dorri nod masnach yn gysylltiedig â chyflwyno neu ymelwa ar unrhyw syniad ar gyfer fformat.

10. Anghymwyso

Mae'r Darlledwyr yn cadw'r hawl, yn ôl eu disgresiwn llwyr, i anghymwyso unrhyw ymateb a/neu unrhyw Gwmni o'r fenter hon ar unrhyw adeg:

(a) os nad yw ymateb yn cydymffurfio â'r Telerau Ymgeisio mewn unrhyw fodd;

(b) os bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r Darlledwyr yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd neu os yw'n peidio â bod yn gywir;

(c) os bydd yr ymgeisydd wedi cydgynllwynio ag unrhyw berson mewn perthynas â, neu yn gysylltiedig ag, ymateb i'r ddogfen hon; neu

(ch) os yw'r ymgeisydd neu ei ymgynghorwyr penodedig wedi ceisio dylanwadu'n amhriodol ar y broses hon mewn unrhyw fodd.

Os caiff unrhyw ymateb neu gwmni ei ddiarddel, gwneir hyn heb niweidio unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y Darlledwyr.

11. Dim Ymrwymiad i Gynnig Cytundeb

Nid oes unrhyw beth yn y ddogfen hon yn ffurfio cytundeb na chontract i gomisiynu unrhyw waith datblygu na chynhyrchu rhaglen.

Mae'r Darlledwyr yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl o'r broses hon a/neu roi'r gorau iddi a/neu ei gohirio ar unrhyw adeg, i beidio â dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses, ac i ategu, diwygio a/neu egluro telerau ac amodau'r ddogfen hon.

12. Cyfraith Reoli

Rheolir y ddogfen hon gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r ymgeiswyr yn cytuno, trwy gyflwyno ymateb, i ildio i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.